Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cymry Ifanc
Young Wales

www.cymru.gov.uk

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

Gwneud Pethau'n Iawn

2009

Pam mae angen Cynllun arnon ni?

Yn 2004, cytunodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i osod CCUHP wrth ganol ei holl waith ar gyfer plant a phobl ifanc (sef pawb o'u genedigaeth i 25 oed). Bob 4 i 5 mlynedd, mae'r Cenhedloedd Unedig yn gofyn i'r DU (Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon) ddweud wrthyn nhw sut ydym yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cael eu hawliau a'u mwynhau. Yna, maen nhw'n rhoi cyngor i ni ac yn awgrymu sut gallwn wneud hyn yn well.

Gellir cael mwy o wybodaeth yn 'Clic', sef y Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor Cenedlaethol i bobl ifanc yng Nghymru: www.cliconline.co.uk/uncrc

Bu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda nifer fawr o sefydliadau eraill, fel elusennau, grwpiau gwirfoddol, plant a phobl ifanc i gytuno ar yr hyn a ddylai fod yn Flaenoriaethau Allweddol ar gyfer gweithredu yng Nghymru.

Mae'r Cynllun hwn yn rhoi gwybod ichi am yr 16 blaenoriaeth y byddwn ni'n canolbwyntio arnyn nhw.

Beth yw CCUHP?

Cytundeb byd-eang sy'n amddiffyn hawliau dynol plant a phobl ifanc dan 18 oed yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, neu CCUHP.
Mae'r hawliau dynol hyn yr un fath i bawb, ac maen nhw i gyd yn bwysig.

Dyma'r 16 blaenoriaeth a sut byddwn ni'n delio â nhw.

1

Mynd i'r afael â thlodi plant a phobl ifanc yng Nghymru

Yr hyn a fydd yn digwydd:

Mae cyfraith newydd yn cael ei chreu yng Nghymru a fydd yn helpu i fynd i'r afael â thlodi ym mywydau plant a phobl ifanc.

Byddwn ni'n sicrhau y bydd y cynlluniau sy'n cael eu llunio i fynd i'r afael â thlodi yn eich ardal leol chi yn gryfach ac yn cael mwy o gefnogaeth.

2

Cyflawni deilliannau cadarnhaol i'r plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed a'u teuluoedd

Yr hyn a fydd yn digwydd:

Mae nifer fawr o brosiectau a pholisïau'n cael eu gwneud i helpu plant a phobl ifanc agored i niwed a'u teuluoedd. Bydd meysydd gwaith newydd yn cynnwys plant a phobl ifanc sydd mewn perygl y bydd rhywun yn eu cartref neu yn rhywle arall yn eu brifo neu'n manteisio arnyn nhw.

Bydd y gwaith hwn yn helpu'r holl blant a phobl ifanc hyd yn oed os ydyn nhw'n byw gyda'u rhieni neu os oes rhywun arall yn gofalu amdanyn nhw.

3

Codi ymwybyddiaeth o CCUHP

Yr hyn a fydd yn digwydd:

Mae angen i bawb wybod mwy am CCUHP. Yng Nghymru, byddwn ni'n dweud wrth blant, pobl ifanc, rhieni a'r bobl sy'n gweithio gyda nhw am CCUHP.

Byddwn ni'n gwneud hyn mewn llawer o wahanol ffyrdd, gan gynnwys trwy'r ysgol. Byddwn ni'n darparu cymorth er mwyn i bawb allu deall sut gall CCUHP wella'u bywydau, a sut gall plant a phobl ifanc sicrhau eu hawliau trwy'r gwasanaethau y maen nhw'n eu derbyn.

4

Lleihau'r bwlch rhwng polisi a deilliannau i blant a phobl ifanc

Yr hyn a fydd yn digwydd:

Byddwn ni'n helpu i wella hyfforddiant a chynllunio'n lleol fel bod gwasanaethau'n well i'r holl blant a phobl ifanc.

Bydd hyn yn golygu y bydd y gwasanaethau hyn o fewn cyrraedd yr holl blant a phobl ifanc ac y byddan nhw'n gallu eu defnyddio, a fydd yn eu helpu i gyflawni mwy.

5

Gwella cyflawniadau dysgu i'r holl blant a phobl ifanc

Yr hyn a fydd yn digwydd:

Mae addysg yn wirioneddol bwysig! Yng Nghymru, rydyn ni'n gweithio'n galed i wella cymorth addysgol i blant a phobl ifanc, mewn ysgolion a cholegau a thu hwnt.

Rydyn ni am i blant a phobl ifanc gael llawer o gyfleoedd a dewisiadau ynglŷn â'r ffyrdd y maen nhw'n dysgu ac yn ennill sgiliau newydd.

6

Cefnogi lles emosiynol yr holl blant a phobl ifanc

Yr hyn a fydd yn digwydd:

Bydd gwaith newydd yn cael ei gyflawni i helpu plant, pobl ifanc a'u teuluoedd ag iechyd a lles emosiynol.

Byddwn ni'n gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys rhoi mwy o wybodaeth mewn nifer o wahanol ffyrdd (llyfrynnau gwybodaeth, cyrsiau hyfforddi, gwefannau) a thrwy wasanaethau newydd mewn lleoedd gwahanol fel ysgolion.

Bydd hyn yn helpu i wella ansawdd bywyd plant a phobl ifanc.

7

Gwella cyfleoedd i'r holl blant a phobl ifanc chwarae'n ddiogel

Yr hyn a fydd yn digwydd:

Byddwn ni'n gweithio i sicrhau bod plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rheiny ag anableddau, yn cael y cyfle i orffwys, chwarae a mwynhau gweithgareddau hamdden sy'n addas ar gyfer eu hoedran nhw.

Bydd hyn yn cynnwys eu helpu i gyrraedd meysydd chwarae, canolfannau hamdden a lleoedd eraill fel theatrau ac amgueddfeydd, a'u defnyddio.

8

Cynyddu cyfleoedd i'r holl blant a phobl ifanc yng Nghymru gymryd rhan mewn penderfynu ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw

Yr hyn a fydd yn digwydd:

Mae rhoi'r cyfle i blant a phobl ifanc gael dweud eu dweud ar benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw'n bwysig iawn.

Rydyn ni wedi cychwyn yn dda yng Nghymru, ond mae angen gwneud mwy i sicrhau bod y cyfle i gymryd rhan ar gael i'r holl blant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau ar faterion lleol a chenedlaethol.

Eich llais chi ydyw ac rydyn ni am ei glywed!

9

Gweithio i gael gwared ar gamwahaniaethu yn erbyn plant a phobl ifanc ag anableddau, gan wella'u mynediad at wasanaethau a chefnogaeth

Yr hyn a fydd yn digwydd:

Bydd prosiectau newydd yn cael eu rhoi ar waith i helpu i leihau unrhyw rwystrau y gall plant a phobl ifanc eu hwynebu wrth geisio cyrraedd gwasanaethau a chymorth, neu eu defnyddio. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r plant a'r bobl ifanc hynny sydd ag anableddau.

Rydyn ni'n mynd i barhau i gefnogi sicrhau cydraddoldeb i'r holl blant a phobl ifanc ledled Cymru, a symud ymlaen â hyn.

10

Gweithio i wneud cosbi plant a phobl ifanc yn gorfforol yn anghyfreithlon ym mhob sefyllfa

Yr hyn a fydd yn digwydd:

Rydyn ni wedi ymrwymo i wneud cosbi plant a phobl ifanc yn gorfforol yn anghyfreithlon yng Nghymru.

Byddwn ni'n cefnogi ffyrdd o ddisgyblu plant a phobl ifanc ledled Cymru mewn modd cadarnhaol a di-drais, ac yn symud tuag at hyn.

11

Gweithio i gael gwared ar fwlio, gan gynnwys bwlio homoffobig

Yr hyn a fydd yn digwydd:

Rydyn ni'n gweithio'n galed yng Nghymru i fynd i'r afael â bwlio. Rydyn ni wedi bod yn rhoi gwybodaeth ac yn ei rhannu i helpu pobl i ddeall bwlio a'r problemau y mae'n eu hachosi.

Rydyn ni'n rhoi help ar wahanol fathau o fwlio (fel bwlio homoffobig, bwlio'n ymwneud â hil a bwlio crefyddol) mewn nifer o wahanol ffyrdd (ysgrifennu llyfrynnau, creu pecynnau hyfforddi a phecynnau gweithgareddau).

Rydyn ni am helpu pawb i werthfawrogi'r ffaith ein bod ni i gyd yn wahanol ac y dylid parchu'r gwahaniaethau hynny.

12

Gweithio i sicrhau bod plant a phobl ifanc yng Nghymru sy'n ffoaduriaid neu'n ceisio lloches yn gallu mwynhau eu hawliau CCUHP a'u hawliau dynol

Yr hyn a fydd yn digwydd:

Er bod Llywodraeth y DU yn gofalu am y maes gwaith hwn, mae yna nifer fawr o brosiectau'n mynd rhagddyn nhw yng Nghymru.

Mae'r prosiectau hyn yn helpu i wella'r cymorth a'r gwasanaethau fel y gallwn ni ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid ac yn ceisio lloches, ac sydd wedi gorfod gadael eu gwlad eu hunain oherwydd gwahanol resymau ac wedi dod i fyw yng Nghymru.

13

Gweithio i gael gwared ag anghydraddoldeb a chamwahaniaethu yn erbyn plant a phobl ifanc

Yr hyn a fydd yn digwydd:

Mae llawer o bobl yn meddwl ac yn siarad yn negyddol am blant a phobl ifanc oherwydd yr hyn maen nhw'n ei glywed, ei ddarllen neu'n ei weld.

Mae plant a phobl ifanc hefyd yn cyflawni llawer iawn o bethau cadarnhaol ac mae angen i ni gefnogi a dathlu'r rhain.
Bydd hyn yn helpu i newid y ffordd y mae pobl yn meddwl am blant a phobl ifanc yng Nghymru, ac yn ymddwyn tuag atyn nhw.

14

Gweithio i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru (e.e. ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf) yn gallu mwynhau eu holl hawliau CCUHP a'u hawliau dynol

Yr hyn a fydd yn digwydd:

Rydyn ni'n bwriadu parhau i weithio gyda grwpiau Cymunedau yn Gyntaf mewn ardaloedd difreintiedig i ddwyn sylw at CCUHP a hawliau dynol, ac i fynd i'r afael â thlodi ym mywydau plant a phobl ifanc.

Rydyn ni am sefydlu prosiectau newydd a darparu hyfforddiant i sicrhau nad yw plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu dal yn ôl oherwydd nad oes digon o arian ganddyn nhw.

15

Gwella tryloywder cyllidebu ar gyfer plant a phobl ifanc ar lefel Llywodraeth Cynulliad Cymru

Yr hyn a fydd yn digwydd:

Rydyn ni eisoes wedi dechrau gweithio ar greu llun eglur a gonest o sut mae arian yn cael ei gynllunio, ei neilltuo a'i wario ar blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Byddwn ni'n gweithio tuag at fod yn agored, yn eglur ac yn onest o ran yr holl ffigurau hyn. Byddwn ni hefyd yn helpu plant a phobl ifanc i ddeall penderfyniadau ynglŷn â sut bydd arian yn cael ei wario yn y dyfodol, ac i gymryd rhan yn y penderfyniadau hyn.

16

Gweithio i sicrhau bod plant a phobl ifanc o Gymru sydd yn y System Cyfiawnder Troseddol yn gallu mwynhau eu hawliau CCUHP a'u hawliau dynol

Yr hyn a fydd yn digwydd:

Byddwn ni'n parhau i redeg prosiectau llwyddiannus sy'n cefnogi plant a phobl ifanc yn y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru, ac yn eu helpu i ennill sgiliau newydd.

Rhan bwysig o hyn yw cefnogi prosiectau addysg a hyfforddiant a'u symud ymlaen, gan gynnwys cymorth ychwanegol i'r rheiny ag anghenion arbennig.

Bydd prosiectau newydd yn cychwyn yn fuan i helpu â hyn.

Bydd yna lawer iawn o waith a phrosiectau eraill yn mynd rhagddyn nhw ledled Cymru i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu deall a mwynhau eu hawliau dan CCUHP. Rydyn ni'n edrych i mewn i sut gallwn ni roi cyfraith newydd ar waith i helpu hyn i ddigwydd. Bydd y gwaith yn parhau i dyfu a newid dros y pum mlynedd nesaf, a bydd yr hyn rydych chi newydd ei ddarllen yn cael ei ddiweddaru i ddangos y newidiadau hynny.

Rydyn ni'n gobeithio y bydd y cynllun hwn yn helpu mwy o blant, pobl ifanc, rhieni a'r rheiny sy'n gweithio gyda nhw i fod yn fwy ymwybodol o CCUHP. Rydyn ni hefyd yn gobeithio y bydd yn helpu pobl i ddeall a defnyddio'r gwasanaethau, y cyfleoedd a'r cymorth sydd ar gael iddyn nhw.

Rydyn ni o'r farn y bydd y gweithrediadau yn y cynllun hwn yn helpu i wella bywydau plant a phobl ifanc ledled Cymru.

Byddwn ni'n parhau i wirio'r cynllun hwn i sicrhau ei fod yn gwneud y gwahaniaeth rydyn ni'n gobeithio'i weld ym mywydau plant a phobl ifanc.

Gallwch chi weld mwy o wybodaeth a chopi o'r cynllun llawn yn:
www.uncrcletsgetitright.co.uk

Designed by